

XXXX

Dyddiad: x
Cyf: x

Annwyl x,

Dyddiad Geni: x
Rhif GIG: x

Eich penodiad YAG cychwynnol

Mae'n bleser gennym gadarnhau eich penodiad YAG cychwynnol gyda ni.

Rydym wedi ymrwymo i wneud i chi deimlo'n gartrefol a'ch bod yn cael gofal yn ystod eich amser gyda ni. Fe welwch yr holl fanylion sydd eu hangen arnoch yn y llythyr hwn, gan gynnwys sut i baratoi ar gyfer eich penodiad ac a oes unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar y diwrnod. Unwaith y byddwch wedi darllen trwy hyn, rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, rydym bob amser yn hapus i helpu.

Mae manylion eich penodiad fel a ganlyn:

 Dyddiad:

 Amser:



Beth i'w wneud cyn eich penodiad

Os ydych chi'n gwisgo lensys cyffwrdd, tynnwch nhw cyn eich penodiad i wneud yn siŵr ein bod ni'n gallu archwilio'ch llygaid yn iawn.

- Os oes gennych lensys caled, dylid eu tynnu bythefnos cyn eich penodiad.
- Os oes gennych chi lensys meddal, dylid eu tynnu saith diwrnod cyn eich penodiad.

Beth ddylech chi ddod gyda chi ar y dydd

Os ydych chi'n gwisgo sbectol, dewch â'ch pâr diweddaraf gyda chi. Efallai y byddwch hefyd am ddod â phâr o sbectol haul gyda chi, oherwydd gall y diferion llygaid a ddefnyddiwn wneud i oleuadau ymddangos yn fwy disglair am gyfnod byr ar ôl eich penodiad.

Dewch â rhestr hefyd o'r holl feddyginiaeth ar bresgripsiwn rydych chi'n ei chymryd ar hyn o bryd (gallwch ddod â phresgripsiwn diweddar gyda chi).

Beth sy'n digwydd ar y diwrnod?

Byddwn yn cynnal gwiriad trylwyr o'ch golwg ac iechyd eich llygaid. Byddwn yn mesur eich golwg ac yn cynnal amrywiaeth o brofion diagnostig i wirio iechyd eich llygaid.

Byddwn hefyd yn defnyddio diferion llygaid i ymagor eich llygaid, a all wneud eich golwg yn aneglur am gyfnod byr. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gallu gyrru adref ar ôl eich penodiad.

Efallai y gofynnir i chi wisgo mwgwd wyneb pan fyddwch yn mynychu'r clinig. Peidiwch â gwisgo unrhyw golur o amgylch y llygaid ar gyfer eich penodiad.

Dylai eich penodiad barhau tua awr.

Ambell beth arall i'w wybod

Os yn bosibl, byddai'n well gennym pe baech yn mynychu eich penodiad ar eich pen eich hun. Fodd bynnag, os teimlwch eich bod angen cymorth gan eich ffrindiau, teulu, neu ofalwr ar y diwrnod, rhowch wybod i'r tîm pan fyddwch yn cyrraedd.

Ychydig ddyddiau cyn eich penodiad, efallai y bydd aelod o'n tîm Newmedica yn eich ffonio i ateb unrhyw gwestiynau.

Os ydych yn teimlo'n sâl, os na allwch fynychu am unrhyw reswm arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau o hyd am eich ymweliad, ffoniwch ni ar: 01603 957020.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n fuan.

Gwasanaethau offthalmoleg

Newmedica Bryste - Aztec

Gwasanaethau offthalmoleg



To read the contents of this pack in English, please visit our website by scanning the QR code.

